# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-11-09)

**Dyddiad: 27 Ebrill 2009**
**Amser: 16.00-18.0**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

SLC267 - Rheoliadau Cynlluniau Trwyddedau Rheoli Traffig (Cymru) 2009

Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'u gwnaed ar ... 2009.. Fe'u gosodwyd ar ... 2009. Yn dod i rym ar … 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chynnwys cynlluniau trwyddedau a pharatoi, cyflwyno, cymeradwyo, gweithredu, amrywio a dirymu cynlluniau o'r fath, sydd wedi'u llunio i reoli'r broses o wneud gwaith stryd penodol a gwaith at ddibenion ffyrdd mewn strydoedd penodol o fewn ardal benodol.

SLC268 - Rheoliadau Gwaith Stryd (Taliadau am Feddiannaeth a Ymestynnir yn Afresymol ar y Briffordd) (Cymru) 2009

Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'u gwnaed ar ... 2009.. Fe'u gosodwyd ar ... 2009. Yn dod i rym ar 1 Mehefin 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gwneud taliadau i awdurdodau priffyrdd pan fydd rhai mathau o waith stryd, a gyflawnir gan ymgymerwyr ar briffyrdd y gellir eu cynnal, yn cael eu hymestyn yn afresymol.

### Eitem 2.2: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC269 - Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 24 Mawrth 2009. Fe'i gosodwyd ar 25 Mawrth 2009. Yn dod i rym ar 1 Mehefin 2009.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu'r holl Fyrddau Iechyd Lleol (BILl) yng Nghymru, ar wahân i Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, ac yn sefydlu chwe BILl newydd a elwir yn Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Sefydlir y chwe BILl ar ffurf gysgodol ar 1 Mehefin 2009, a byddant yn llwyr weithredol o 1 Hydref 2009.

SLC270 - Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Mawrth 2009. Fe'u gosodwyd ar 25 Mawrth 2009. Yn dod i rym ar 1 Mehefin 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2003 a Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2007. Maent yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad ac aelodaeth Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru, gan gynnwys eu gweithdrefnau a'u trefniadau gweinyddol.

SLC271 - Gorchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Amrywio Atodlen 4) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 24 Mawrth 2009. Fe'i gosodwyd ar 26 Mawrth 2009. Yn dod i rymar 23 Ebrill 2009.

Mae'r Gorchymyn yn amrywio Atodlen 4 ("yr Atodlen") i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("y Ddeddf") sy'n rhestru'r adar y mae'n rhaid eu modrwyo a'u cofrestru, yn unol ag Adran 7 y Ddeddf, os cedwir hwy mewn caethiwed. Mae'r Gorchymyn yn tynnu nifer o rywogaethau oddi ar yr Atodlen a bydd hefyd yn tynnu allan y gofyniad ar gyfer cofrestru cymysgrywiau o bob rhywogaeth a restrir yn yr Atodlen. Ni ychwanegir unrhyw rywogaethau newydd i'r Atodlen.

SLC273 - Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 31 Mawrth 2009. Fe'u gosodwyd ar 1 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 22 Ebrill 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r camau sydd i'w cymryd a'r amgylchiadau pan fo raid i awdurdod derbyn ar gyfer ysgol a gynhelir roi blaenoriaeth yn eu trefniadau derbyn i "blentyn perthnasol sy'n derbyn gofal" (plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru o fewn ystyr adran 22 o Ddeddf Plant 1989 ar adeg gwneud ei gais ac a fydd yn dal i dderbyn gofal yn y ffordd honno ar yr

adeg pan gaiff ei dderbyn i'r ysgol).

SLC275 - Rheoliadau Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (Cymru) (Dirymu) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 30 Mawrth 2009. Fe'u gosodwyd ar 1 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 24 Ebrill 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (Cymru) 2007 (S.I. 2007/2311) ("Rheoliadau 2007"). Roedd Rheoliadau 2007 yn rhoi'r sail ar gyfer y Cynllun Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (Cymru) yn ystod y flwyddyn academaidd 2007/2008. Bu cynllun a addaswyd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2008/2009 ac mae'n parhau i weithredu o dan sail statudol wahanol.

SLC276 - Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 31 Mawrth 2009. Fe'u gosodwyd ar 1 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 22 Ebrill 2009.

Mae'r Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 1998 ("Rheoliadau 1998") yn cyfyngu i 30 y nifer mwyaf o ddisgyblion mewn dosbarth babanod pan fo athro ysgol yn cynnal sesiwn addysgu gyffredin. Fodd bynnag gellir diystyru mathau penodol o blant ("disgyblion a eithrir") at ddibenion canfod a gaiff y cyfyngiad o 30 ei ymestyn. Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn i Reoliadau 1998 yn addasu rhywfaint ar y categorïau o "ddisgyblion a eithrir" ac maent yn ychwanegu tri chategori newydd, yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu derbyn i ysgolion y tu allan i'r cylch derbyn arferol a disgyblion sy'n cael eu derbyn y tu allan i'r cylch derbyn arferol ac sydd yn dymuno cael addysg mewn ysgol ac iddi gymeriad crefyddol penodol.

SLC277 - Gorchymyn Merthyr Tudful a Phowys (Ardaloedd) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 5 Ebrill 2009. Fe'i gosodwyd ar 7 Ebrill 2009. Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi eu heffaith i gynigion y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i newid rhan o'r ffin sirol bresennol rhwng cyngor bwrdeistref sirol Merthyr Tudful a chyngor sir Powys. Argymhellodd hefyd newid i'r ffin rhwng cymunedau Tal-y-bont ar Wysg a Llangynidr yn sir Powys gyda newidiadau canlyniadol i ffiniau adrannau etholiadol.

SLC278 - Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 11 Ebrill 2009. Fe'u gosodwyd ar 15 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 6 Mai 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb 2004/35, ac yn gosod rhwymedigaethau ar weithredwyr gweithgareddau economaidd sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt atal, cyfyngu neu adfer difrod amgylcheddol. Dim ond i'r difrod mwy difrifol fel y'i diffinnir y mae'r Rheoliadau'n gymwys.

### Eitem 3: Offerynnau ac offerynnau drafft y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC272 - Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 25 Mawrth 2009. Fe'u gosodwyd ar 27 Mawrth 2009. Yn dod i rymar 17 Ebrill 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith safonau marchnata'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â chynhyrchu, marchnata a graddio wyau, a bydd yn galluogi deddfwriaeth bresennol a newydd y Gymuned i gael ei gorfodi yng Nghymru mewn perthynas â wyau deor neu wyau ar gyfer eu bwyta, ac mewn perthynas â chywion dofednod buarth fferm.

SLC274 - Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 31 Mawrth 2009. Fe'u gosodwyd ar 1 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 22 Ebrill 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005"). Mae Rheoliadau 2005 yn rhagnodi materion yn ymwneud ag apelau yn erbyn penderfyniad i wrthod derbyn plentyn i ysgol. Gwneir dau ddiwygiad. Bach iawn yw'r diwygiad cyntaf a fwriedir i egluro materion y dylid eu hystyried gan banel apêl pan fydd yn ystyried apelau yn erbyn penderfyniadau a wnaed ar sail deddfwriaeth maint dosbarth babanod. Mae'r ail yn rhoi Atodlen 2 newydd yn lle'r hen un yn Rheoliadau 2005, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer apelau mewn achosion lle mae penderfyniadau yn cael eu gwneud am blant sy'n mynd i'r chweched dosbarth, neu sy'n cael addysg ar ôl iddynt beidio â bod yn blant o oedran ysgol gorfodol. Mae'r Atodlen newydd yn dileu cyfeiriadau at y Cyngor Tribiwnlysoedd, a ddisodlwyd gan y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd.

### Eitem 4: Ystyried y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (Mesur Seneddol)

SLC (3)-10-2009(p1): Y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (Mesur Seneddol) a Nodiadau Esboniadol:

**http://services.parliament.uk/bills/2008-09/apprenticeshipsskillschildrenandlearning.html**

SLC (3)-11-2009(p1): Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol

**Papurau i'w nodi:**

SLC (3)-10-2009(p2): Llythyr y Cadeirydd at Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

SLC (3)-10-2009(p3): Ymateb y Gweinidog i'r Cadeirydd

SLC (3)-10-2009(p4): Memorandwm gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, a'r Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau i Bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio

SLC (3)-10-2009(p5): Ymateb dros dro y Pwyllgor Menter a Dysgu i'r Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (Mesur Seneddol)

SLC (3)-11-2009(p2): Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu (gosodwyd ddydd Iau 26 Mawrth 2009)

### Eitem 5: Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)

SLC(3)-11-09(p3): Y Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)

SLC(3)-11-09(p4): Memorandwm Esboniadol i'r Mesur Arfaethedig yngylch Plant a Theuluoedd (Cymru)

SLC(3)-11-09(p6): Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol - Nodyn ar ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth

SLC(3)-11-09(p7): Llythyr y Gweinidog i Val Lloyd AC, Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, ynghylch yr angen posibl am ddarpariaethau ychwanegol yn y Mesur.

### Eitem 6: Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200-: y wybodaeth ddiweddaraf

SLC(3)-11-09(p5): Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol

SLC(3)-24-2008(p1) - Adroddiad Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar Fesur Arfaethedig Llywodraeth Leol (Cymru) 200-

### SLC(3)-24-2008(p2) - Mesur Arfaethedig Llywodraeth Leol (Cymru) 200-

### SLC(3)-24-2008(p3) - Memorandwm Esboniadol i Fesur Arfaethedig Llywodraeth Leol (Cymru) 200-

### SLC(3)-01-2009(p1) - Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar Fesur Arfaethedig Llywodraeth Leol (Cymru) 200-

### Caiff y Pwyllgor ei wahodd i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi):

Caiff pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi

### Eitem 7: Ehangu'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth: Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig - ystyried yr adroddiad terfynol

SLC(3)-06-09 (p1) - Adroddiad terfynol: Ymchwiliad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

**Eitem 8: Unrhyw fater arall**

### Eitem 9: Dyddiad y cyfarfod nesaf